

leoedd fel n fydden ni'n colli pe bai'r ddfod yn pio teithio



glwlr heb ei hail.

dualennau'r
ffotograffau,
ffotograffau,
ffotograffau, cardiau post,
lliau unrhyw
stampiau), dwi'n
bellach dwi'n
i. Disgwyl am Becky
wn i.

h fod y Steddfod
nio. Ches i ddim
eld â Chanolfan
n yn ystod y
dychwelais yno i
angosfa wych ar
d Pugh. Doeddwn i
lywed amdano o'r
rodor o Ruthun
ocedent yn dathlu
iant ei farw eleni.

ocedd o, a
ac a ddaruniodd ei
ymru dan y teitl
nio. Ches i ddim
fodd Canolfan
ddd cael nifer o
ddechongli gwaith
u cyfrwng eu
y teitl Ffenestri ar
Fedi 22). Cewch
u unigryw Eleri
g firain Lowri
eriadau papur
Pari, a llyfrau

di cael fy swyno o'r
aith yr artistiaid
pedd Becky Adams
ydd. Pan welais ei
ai gweithdy rai
ddiwyddiarach,
id i mi gael
Ruthun i un o'i
y'r cannoedd o
a gwennodd
y, y frawddeg a
w Becky Adams
m yr adar pâl yn
i. Dyna ddewisodd
nio - pwrffin papur
darnau o
Edward Pugh yn
ol.

nio Poced' oedd
ithdy, ac erbyn
wrnod, roedd gen i'r
a dwi wedi
fo. Dydi o'n da i
fan. I ddal ei lecio, a
orriad papur
d dwi'n ei lecio, a
yrrysig. Dyna
i Becky mewn
yryllychu papurach
atall yn gweld

Arferai ei thaid a'i nain
gadw'r post mewn pentref
bach yng nghyffiniau
Aberhonddu, a phan gai ei
gwarchod ganddynt, ei
thasg oedd chwarae efo
stamps rwbwr a chasglu
stampiau. Arweiniodd hyn at
obsesiwn oes. Bellach, mae gan
Becky Adams lond tŷ o'nialiwch
defnyddiol, a daeth a'i hanner
efo hi y dydd o'r blaen.

Wedi torri'r cardbord yn siap
llyfr, mae croeso i chi ei
addurno efo defnydd, lês, hen
luniau, papur neu stampiau. Y
diben yw gwneud cofnod
personol sy'n arbennig i chi a
neb arall.

Fe allech ei alw yn lyfr scrap
i w'ffritio yn eich poced, a rydw
i wedi gwneud beth wmbredd o
lyfrau scrap. Ond yr elfen
newydd yn y gwaith i mi oedd
gwntio defnydd ar bapur efo
peiriant gwntio!

Tan eleni, doeddwn i ddim
wedi cyffwrdd peiriant gwntio
ers 1972 pan gefais fy anfon
allan o'r dosbarth Nidylwyrc am
siarad efo Valerie Ann. Pethau
i w' gochel oeddnt, ar boen
eich bywyd.

Ond ar faes yr Eisteddfod,
dan gyfarwyddyd Cefyn
Burgess, cefais gyfle i greu llun
gyda pheiriant gwntio a
gwirionais. Rai wythnosau yn
ddiweddarch, dros y ffordd i
weithdy Cefyn Burgess, ron i'n
cael cyfle atall i greu - diolch i'r
Eisteddfod!

Cyfleoedd fel hyn fyddai
rhywun yn eu colli petai'r Wyl
yn troi yn un sefydlog.
Yn ei amser hamdden, mae
Becky Adams yn llenwi llyfrau -
efo lluniau, dyfyniadau,
defnyddiau, lliwiau - a stamps.
Arferai gadw dydiadur yn
ddyddiol, am bedair blynedd ar
bymtheg nes i brofedigaeth
enbyd ddod i w rhan. Wedi
hynny, ni welai ddiiben mewn
cadw cofnod. Ond yn raddol,
dechreuodd dorri pethau efo
sisiwrn, a llenwi llyfrau, ac ers
hynny ni fedd stopio.
Dyddiaduron o fath ydi'r rhain,
ond maent yn rhai cwbl
unigryw.

Does gan y mwyafrif
ohonom fawr o amynedd efo
pa mor amheronol yw'r byd
bellach. Gyda chyfrifiaduron a
chyfringau digidol yn rheoli
ein bywydau, mae yna awydd
ynom yn aml i gyffwrdd rhosyn
go iawn, i deimlo hances hen
ffasiwn, i dderbyn llythyr
sgwennwyd â llaw. I ddal hud yr
eliadau arbennig hyn y crewyd
lyfrau Becky Adams.

BYD NATURE

Gan BETHAN WYN JONES

ROEDD pnawn Sadwrn diwethaf yn
bnawn braf ac roeddwn i'n ddiagon
ffodus o fod ar lannau'r Fenai yng
nghwmni Jodie Haigh a Julia Pantin o
Adran Eigioneg Prifysgol Bangor i
ddysgu am y cranc coch.

Mae'r ddwy yn than o'r Grwp
Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a
Chadwraeth sy'n edrych ar wahanol
rywogaeth fel draenogiaid y môr,
cimychiaid, cregyn bylchog ac ati er
mwyn deall mwy amdany'n nhw ac er
mwyn gweld sut mae modd cynorthwyo
diwydiant pysgota Cymru a chael stoc
gynaliadwy o bysgod a rhywogaethau
eraill i'r dyfodol.

Un o'r rhywogaethau maen nhw'n ei
astudio ydi'r cranc coch. Yr enw
gwyddonol ar yr anifail yma ydi Cancer
pagurus a'r brown neu'r edible crab yn
Saesneg. Mae'r crancod coch mwyaf yn
cael eu pysgota'n fasnachol. Mae
cawellwyr yn bwrw cewyll hefo darn o
bysgodyn ynddo ac yn eu gadael er
mwyn denau'r crancod coch at y cewyll.
Fel rheol maen nhw'n edrych ar y cewyll
bob ryw ddiwrnod neu ddau, yn
dibynnu ar y tywydd, ac os ydyn nhw'n
lwctus maen nhw'n dal crancod aeddfed
ac rydan nimnau wedyn yn medru
gwleddu.

Mae'n rhaid i led cramen y cranc fod
yn o leiaf 130mm cyn y caniatêir ei ddal.
Gyda llaw, cranges ydi'r enw ar y fenyw
a gwigranc ydi'r gwryw.

Mae eu bywyd yn diddorol yn fy marn
i.

Mae'r rhai ifanc yn byw ar lan y môr
yn yr ardal rhynglanw ac yn tyfu'n araf
deg bach dros gyfnod o ryw ddwy i dair
blynedd. Wrth iddyn nhw dyfu, mi
fyddan yn raddol yn symud i lawr i ddiwr
dyfnach ac yna pan maen nhw'n
oedolion yn symud i ddyfnwr o hyd at
90m. Does neb i weld yn hollol siwr be
yn union ydi eu maint nhw wrth iddyn
nhw symud o'r traeth i ddiwr dyfnach a
dyma un o'r pethau mae'r prosiect yn
gobeithio ei ddarganfod.

Pan fydd y granges yn aeddfed, mi
fydd yn cynhyrchu wyau ac mi fydd y
gwigranc yn gofalu amdani nes iddi
iwrw ei chramen er mwyn paru hefo hi.

Unwaith mae'r wyau wedi'u
ffrwythloni'n fewnol, mi fydd y
gwigranc yn cau'r twll er mwyn sicrhau
na fydd had unrhyw gwigranc arall yn
cyrraedd yno.

Mi wnaiff hefyd aros hefo'r granges
nes y bydd y gramen newydd wedi tyfu
ac wedyn mi fydd yn ei gadael. Mi fydd y
granges yn cario ei hwyau o gwmpas
hefo hi am sbel gan eu dal dan ei bol.
Mae bridio fel arfer yn digwydd yn ystod
misoedd y gaeaf ac mi all y granges
gario'r wyau am tua saith i wyth mis,
gan eu rhyddhau yn y gwanwyn a'r haf.
Mae gwyddonwyr yn amcangyfrif y
gall un granges gario dros ddwy filiwn o
wyau ar yr un pryd!

Mi fyddan nhw'n byw yno am gyfnod
fel larfa ar drugaredd y cefnfor cyn
ymateb i arwyddion amgylcheddol (ac
eto, does neb yn hollol siwr be ydi'r
rhain) ac yn tynnu tua'r lan i setlo i lawr
i fyw ar y traeth.

Mae'r cynefin tywodlyd/mwdlyd ac yn
rhanol greigiog fel sydd ar lannau'r
Fenai yn gweddul'n berffaith iddyn nhw.
A chwilio am y rhai bach ar lan y môr
roeddem ni.

Wel, i fod yn fanwl gywir, Jodie a Julia
oeddwn i! Roedden nhw'n brysur yn troi
cerrig go fawr oedd â gwymon yn sownd
ynddyn nhw drosodd - dyna lle mae'r
crancod bach yn hoffi llechu pan mae'r
môr ar drai. Pan fydd yn llenwi, mi ddôn



Jodie Haigh o Adran Eigioneg Prifysgol Bangor gyda chranc coch aeddfed



Cranc glas (chwith) a chranc coch



Cranc coch ifanc

Diogelu'r cranc coch

nhw allan a dechrau bwydo.

A fuo'r ddwy fawr o dro cyn cael hyd i
ddau ohonyn nhw. Un yn eithriadol o
fach ac un arall ychydig mwy - tua
30-40mm ar draws y gramen.

Y ffordd i adnabod y cranc coch ydi
fod ganddyn nhw liw brown/goch, mae
ochr y gramen yn edrych 'run fath ag
ochr teisen grwst ar blât ac mae eu
bodiau blaen yn wyn hefo'r blaenau yn
ddu.

Mae'n granc atall ar y traeth hefyd,
sef y cranc glas neu granc y traeth -
Carcinus maenas ydi ei enw gwyddonol,
a'r shore crab neu'r green crab yn
Saesneg. Dydi'r ddau ddim yn annhebyg
i w' gilydd, ond y ffordd i ddweud y

gwahaniaeth rhyngddynt ydi fod y cranc
glas yn fwy gwydd ei liw, ac mae ochr y
gramen yn edrych fel dannedd llif ac
mae ei fodiau hefyd yn wyrdd.

Yr hyn sy'n eu poeni nhw ydi fod pobl
fel chi a fi, a rhai pysgotwyr yn mynd i'r
traeth i chwilio am grancod, naill ai i
edrych amyn nhw a mynd â nhw adra
neu i w' casglu fel abwyd. Mae croeso i
chi gasglu hynny leciwch chi o'r cranc
glas, ond plis gadewch i'r cranc coch gael
llynydd. Os cawn nhw lonydd yma, mae
siawns go lew y gwanân nhw dyfu i w'
llawn dwf gan roi cyfle i'r cawellwyr eu
canfod yn eu cewyll ac i chi a finnau
gael pryd blasus.